Ysgol Penrhyn-coch

Bu'r Noson Agored yn un hynod lwyddiannus. Cafodd y rhieni gyfle i siarad a'r athrawon a chael golwg ar waith y plant. Braf iawn oedd gweld cymaint o'r tadau yn ogystal a'r mamau yn presennol.

Dal yn yr ysbyty yng Ngnaerdydd y mae Andrew Allsopp ond gobeithiwn erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r *Tincer* allan y bydd Andrew'n ol gennym yn yr ysgol. Y mae wedi debryn triniaeth lawfeddygol ac yn graddol wella. Y mae Andrew a'i rieni'n gwerthfawrogi caredigrwydd nifer o bobl dda'r Penrhyn.

Llawen iawn oedd pawb ohonom o weld Bethan Evans yn dod i mewn yn gyntaf yn y ras trawsgwlad i ferched o dan ddeg oed. Bu'r ornest yn Aberystwyth fel rhan o Wyl y dref. Catodd Bethan fedal hardd am ei champwaith. Da iawn Bethan, daliwch ati.

Llongyfarchwn Kay Smith nefyd ar gael ei dewis yn aelod o Gerddorfa Ceredigion. Y mae Kay wrth ei bod yn chwarae'r ffidil ac yn llawen iawn o gael bod yn rhan o'r gerddorfa. Pob lwc i chwithau, Kay.

Yn anffodus y mae'r grŵp dawnsio creadigol yn methu a mynd i Bwllheli i gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd. Y mae rhai merched ymaith ar wyliau ac felly bu'n rhaid rhoi heibio'r cystadlu am y tro. Dymunwn y gorau er hynny, i holl blant cylch y *Tincer* a fydd yn cystadlu'n yr Wyl.